

- Y Diemwnt Du a Thu Hwnt:
- Dwylo Cudd ac Iachau'r Tir



Ariennir gan  
Lywodraeth Cymru  
Funded by  
Welsh Government



# CYNNWYS

CYFLWYNIAD.....	4	CAERDYDD.....	20
CWRICWLWM I GYMRU.....	5	RHONDDA.....	22
ADNODDAU NATURIOL A CHYFOETH.....	6	MERTHYR.....	24
ARLOESI A MOESEG.....	8	PEN-Y-BONT.....	26
POBL A LLEOEDD.....	10	CAERFILLI.....	28
IECHYD AC YMGYRCHU CYMUNEDOL.....	14	DOLENNI DEFNYDDIOL.....	30
RHESTR O LUNIAU ARCHIFOL.....	16	PROFIADAU Y TU HWNT I FORGANNWG.....	31
ARCHIFAU TRA LLEOL.....	17	ARCHIFAU MORGANNWG.....	32
BRO MORGANNWG.....	18	ATODIADAU.....	35



# CYFLWYNIAD

Mae'r prosiect hwn gan Archifau Morgannwg yn adnodd arloesol sydd wedi'i gynllunio i ysbrydoli dysgwyr i archwilio gorffennol, presennol a dyfodol diwydiannol Cymru. Trwy lens cofnodion Morgannwg, mae'r deunydd yn datgelu cyfraniadau cudd ar draws pedair thema:

- Adnoddau Naturiol a Chyfoeth
- Arloesi a Moeseg
- Pobl a Lleoedd
- Iechyd ac Ymgyrchu Cymunedol

Rhan bwysig o'r adnodd hwn yw herio naratifau traddodiadol. Mae'r thema Pobl a Lleoedd yn canolbwyntio ar rolau pobl o dras y mwyafrif byd-eang, menywod, plant ac anifeiliaid, ac mae wedi'i hategu gan ddau fideo pwrpasol sy'n archwilio hanes glowyr Du. Mae'r ffilmau hyn yn portreadu natur fyd-eang meysydd glo'r 19eg ganrif, gan ddangos sut y daeth y byd i Gymru yn yr un modd ag yr aeth Cymru i'r byd.

Mae'r thema Arloesi a Moeseg yn cwestiynu pwy sy'n cael ei ddathlu neu ei anwybyddu mewn hanes. Trwy archwilio'r 'pam' y tu ôl i'r naratifau hyn, mae dysgwyr yn datblygu lens feirniadol wrth archwilio'r angen am wneud yn siŵr bod arloesedd yn foesebol er mwyn sicrhau lles cymunedol yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae lechyd ac Ymgyrchu Cymunedol yn dathlu'r gweithredu ar y cyd a luniodd genedl, gan dynnu sylw at ymarferwyr o dras y mwyafrif byd-eang a oedd o gwmpas cyn y GIG. Trwy fyfyrto ar gofebion, mae'n gwahodd dysgwyr i ddychmygu tirwedd gynhwysol o goffa sy'n anrhydeddu'r rhai sydd wedi cael eu hanwybyddu'n hanesyddol.


Gyda chefnogaeth rhaglen ddogfen Boom Town y BBC, mae'r gweithgareddau'n seiliedig ar brofiadau ac yn canolbwyntio ar themâu i wneud y mwyaf o ddysgu trawsddisgyblaethol a chynefin. Gan fynd i'r afael â chanfyddiadau adroddiadau diweddar gan Adnodd ac Estyn ar sut i gefnogi ymarferwyr o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol, mae'r uned hon hefyd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Trwy dynnu sylw at ddatganiadau 'Beth sy'n Bwysig' a

Chwestiynau Hanfodol, mae'r adnodd yn grymuso ymarferwyr i hwyluso dysgu dilys, ac i sicrhau bod dysgwyr yn deall y 'pam' o ran eu taith ddysgu, gan arwain at gymhwyso a dilyniant ar draws cyd-destunau.



## Pedwar Diben

Mae'r prosiect yn defnyddio ei bedair thema ddysgu allweddol i alinio'n gryf â Phedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru a'u datblygu:



## Galluogi Dysgu

OEDOLION SY'N  
GALLUOGI DYSGU

PROFIADAU  
SY'N ENNYN  
DIDDORDEB

AMGYLCHEDDAU  
EFFEITHIOL


Mae Galluogi Dysgu, un o egwyddorion craidd y Cwricwlwm i Gymru, yn cefnogi cwricwlwm sy'n diwallu anghenion pob dysgwr drwy dair elfen rhyng-gysylltiedig: oedolion sy'n galluogi dysgu, profiadau sy'n ennyn diddordeb, ac amgylcheddau effeithiol.

Mae oedolion yn creu mannau diogel a chynhwysol trwy ymateb mewn modd sensitif i anghenion unigol a gwerthfawrogi hunaniaeth, iaith a diwylliant pob dysgwr; gan feithrin chwilfrydedd, cydweithredu, gwytnwch, annibyniaeth, a pherthyn. Mae adnoddau a gweithgareddau, fel fideo Myya Helm, wedi cael eu curadu i gefnogi oedolion i ymateb yn sensitif a gwerthfawrogi hunaniaeth, iaith a diwylliant pob dysgwr wrth drafod etifeddiaeth hanesyddol sy'n aml yn cael ei hanwybyddu.

Dylai profiadau dysgu fod yn ystyrion, yn heriol ac adlewyrchu dysgwyr a'u byd, gan ddefnyddio dulliau gweithredol, amlsynhwyrdd a thrawsgwricwlaidd i feithrin sgiliau cyfathrebu, creadigrwydd a datrys problemau. Mae'r defnydd o adnoddau archif tra lleol a myfyrio ar y presennol a'r dyfodol yn cynnig cyd-destunau diddorol a pherthnasol sy'n caniatáu i ddysgwyr ddyfnhau a chymhwyso eu dysgu.

Mae amgylcheddau dan do ac awyr agored sydd wedi'u cynllunio'n dda yn gwella dysgu ymhellach trwy fod yn gynhwysol, yn gyfoethog o ran cyfathrebu, ac yn gefnogol o ddatblygiad emosiynol, corfforol a gwybyddol, gan gynnig cyfleoedd hyblyg sy'n ysbrydoli chwilfrydedd, creadigrwydd, a chariad gydol oes at ddysgu. I ategu'r archifau printiedig yn yr ysgol, mae amrywiaeth o gyfleoedd tra lleol sy'n seiliedig ar brofiadau ar gael fel rhan o'r adnodd yn ogystal â'r cyfle i ymweld ag Archifau Morgannwg i drefnu casgliad wedi'i gynllunio ar gyfer eich dysgwyr.

## Gwybod eich 'Pam'



**Pam mae'r dysgu hwn yn bwysig?  
Pam mae'n bwysig i'ch dysgwyr?  
Pam mae'n bwysig ar y pwynt hwn yn eu dysgu?  
Beth yw pwrpas y dysgu?**

Mae gwybod eich 'pam' yn hanfodol wrth dylunio cwricwlwm sy'n bwrpasol ac yn ymatebol. Mae hyn yn golygu seilio eich penderfyniadau ar sut i ddefnyddio'r archifau ac awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau dysgu gyda dealltwriaeth glir o'r dysgwyr o'ch blaen: eu hunaniaethau, eu profiadau, eu chwilfrydedd a'u dyheadau. Mae ymdeimlad cryf o bwrpas o ran yr hyn rydych chi'n ei wneud a sut rydych chi'n hwyluso dysgu yn helpu i sicrhau bod eich cwricwlwm yn cefnogi ac yn gwireddu'r Pedwar Diben.


Pan fydd addysgwyr yn fwrriadol ynglŷn â pham maen nhw'n addysgu a phwy maen nhw'n ei addysgu, mae dylunio'r cwricwlwm ar gyfer y dysgwyr yn eich dosbarth yn dod yn broses ystyrion sydd nid yn unig yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei rymuso i ffynnu mewn Cymru sy'n newid a byd sy'n newid, ond sy'n cefnogi eich dysgu proffesiynol parhaus eich hun o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

## Cwestiynau Hanfodol a Myfyrio ar y Presennol a'r Dyfodol

Mae'r Cwestiynau Hanfodol cyffredinol a phryfoclyd yn helpu i strwythuro dysgu (ac i wybod eich 'pam'). Maent yn darparu ffocws ar gyfer ymchwilio dwfn ac yn sicrhau bod dysgu'n cael ei gysylltu a'i drosglwyddo i gyd-destunau newydd.

Mae Myfyrio ar y Presennol a'r Dyfodol yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr wneud cysylltiadau rhwng eu dysgu a'u rôl eu hunain yn nyfodol Cymru.

## Proses Asesu a Dylunio'r Cwricwlwm



GOFYN	CYNLLUNIO	ADDYSGU	MYFYRIO
Ystyrion anghenion a chyd-destunau o'r ddiwydd.	Gwneud cysylltiadau i sut i gael gweithredol i'ch dysgwyr a phrofiadau cyffwrdd at ddysgu penodol.	Cynllunio cyfleoedd a phrofiadau dysgu heb eu dysgwyr i wneud cynnydd.	Ystyrion ystod eang a wybodaeth a ddiwydd asesu fel dangosyddion o gynnydd dysgwyr.
Dewis dull dysgu sy'n ymateb i anghenion ac yn ehangu gwybodaeth, er enghraifft, peidiwch dim ddisgwlwng, a gwybodaeth hanfodol, syniadau mawr ac yn y blaen.	Ystyrion sut mae dysgu'n gallu darparu cyfleoedd i ddysgwyr wneud wybodaeth, sgiliau a phrofiadau.	Ystyrion sut i gael profiadau o'r cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu atgyn a gweithredol i'ch dysgwyr.	Dad i farn am gynnydd dysgwyr a'u rhanu gyda gweithgareddau, mewn a golygydd.
Ystyrion y ddatblygiad sy'n ffordd i ddatblygu gwybodaeth a phrofiadau: pam mae'r dysgu hwn yn werth chweid ar y pwynt hwn yn rhyng-ysgyl?	Sicrhau bod y dysgu sydd wedi'i gysylltu yn cynnig hysbysu o'r hysbysu a ddiwydd i atgynydd.	Datblygiad ystod o offer asesu i'ch dysgwyr sy'n ddiwydd ac arylwyl i'ch dysgwyr a dangosyddion o gynnydd.	Defnyddio'r ddiwyddiaeth hon i lywio gweithgareddau a'ch addysgu, y cwricwlwm ac etifeddiaeth yr ysgol.

Am ragor o gymorth gyda'r broses o asesu a dylunio'r cwricwlwm,

[cliciwch yma](http://cliciwch.yma)

# ADNODDAU NATURIOL A CHYFOETH



Mae gwythien lo De Cymru yn arbennig oherwydd bod ganddi lawer o wahanol fathau o lo, gan gynnwys glo carreg o ansawdd uchel. Creodd pwysau aruthrol y grymoedd daearegol yn yr ardal lo o'r ansawdd gorau, gan ei wneud yn hynod werthfawr. Arweiniodd yr ymdrech i echdynnu adnoddau at effaith amgylcheddol ddifrifol a pharhaol ar dirwedd a chymunedau'r rhanbarth. Mae'r thema hon yn archwilio'r cyfoeth daearegol enfawr a geir yn Ne Cymru: mae'n archwilio sut y daeth yr adnodd naturiol hwn yn sylfaen i ddiwydiant byd-eang, gan gynhyrchu cyfoeth ariannol enfawr. Wedi hynny, mae'n codi cwestiynau beirniadol ynghylch pwy oedd yn rheoli ac yn elwa o hynny.

## GWEITHGAREDDAU A AWGRYMR

### Ffurio Glo: Model Synhwraidd

Gan weithio mewn grwpiau, gallai disgyblion ddefnyddio jariau clir i fodelu strata daearegol trwy haenu deunyddiau (pridd, mawn/dail, tywod, graean). Mae'r gweithgaredd ymarferol, diriaethol hwn yn ysgogiad pwerus i esbonio'r pwysau a'r amser aruthrol sydd eu hangen i ffurfio glo.

Mae rhoi gwrthrych trwm ar yr haenau yn dangos yn uniongyrchol bwysau ffisegol enfawr y graig orchudd, gan gysylltu'r grym hwn â'r broses ddaearegol a greodd glo carreg hynod gywasgedig a gwerthfawr De Cymru.

### Cloddio Cwcis

Mae Cloddio Cwcis yn weithgaredd ymarferol lle mae disgyblion yn defnyddio offer i godi 'glo' (siocled) o'r 'ddaear' (cwcis) gan ddefnyddio 'offer' (deintbigau pren). Y nod yw echdynnu cymaint o siocled â phosibl wrth achosi cyn lleied o ddifrod â phosibl i'r cwcis; gan efelychu'r cyfaddawdau economaidd ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â mwyngloddio yn y byd go iawn, gyda'r difrod yn cynrychioli'r effaith ar y tir. Gall dwyseddau amrywiol y darnau o siocled efelychu gwerth ac ansawdd adnoddau. Mae'r gweithgaredd yn darparu profiad diriaethol o heriau echdynnu a goblygiadau amgylcheddol.

### Y Ddadl Miliwn o Bunnoedd: A yw'r Risg yn Gydradd â'r Wobr

Gallai dysgwyr gymryd rhan mewn dadl strwythuredig yn seiliedig ar y cytundeb glo hanesyddol cyntaf gwerth miliwn o bunnoedd, a wnaed yng Nghyfnawidfa Lo Caerdydd. Gallai grwpiau sy'n cynrychioli'r pedwar cyfrannwr allweddol – perchnogion/cyllidwyr y glofeydd, y glowyr, y gweithwyr cludo, a chiriwiau llongau – ddadlau eu hachos, gan gyfiawnhau pam mae eu cyfraniad, gan gynnwys y risgiau ariannol a chorfforol a gymerwyd, yn rhoi hawl iddynt i'r gyfran fwyaf o'r elw enfawr. Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio moeseg dosbarthu cyfoeth a'r cydbwysedd rhwng risg a gwobr yn niwydiant glo De Cymru.

## Datganiadau Beth sy'n Bwysig

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg:

Mae grymoedd ac ynni yn darparu sylfaen ar gyfer deall ein bydysawd.

**Dyniaethau:** Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddeinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

**Dyniaethau:** Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

## Cwestiynau Hanfodol

- Y tu hwnt i'w ansawdd, pa ffactorau wnaeth "aur du" De Cymru yn adnodd mor bwerus a gwerthfawr, yn fyd-eang ac yn lleol?
- Beth yw etifeddiaeth barhaol glo ar dirwedd a chymunedau De Cymru?
- Sut newidiodd pŵer glo fywydau'r bobl yng Nghymoedd De Cymru?



£100M  
AR GYFER  
TOMENNI GLO  
NAS DEFNYDDIR

Pwy ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod yr hen domenni glo yng Nghymru yn ddiogel ac yn cael eu defnyddio'n iawn heddiw, pobl o'r gorffennol, neu bobl o'r presennol?

## MYFYRIO AR Y PRESENNOL A'R DYFODOL

Pam mae'r elw enfawr sy'n cael ei wneud o adnoddau lleol gwerthfawr yn aml yn mynd i berchnogion ymhell i ffwrdd tra bod y gymuned yn cael ei gadael gyda'r problemau amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor yn unig?





## Datganiadau Beth sy'n Bwysig

**Iechyd a Lles:** Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau pobl eraill.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg:** Mae meddwl dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol o ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

**Dyniaethau:** Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

## Cwestiynau Hanfodol

- Sut gwnaeth glo Cymru gysylltu Cymru â'r byd ehangach a llunio ei hunaniaeth?
- Pwy ddylai fod yn gyfrifol am gadw gweithwyr yn ddiogel ac yn iach pan fydd diwydiannau newydd yn tyfu?
- A wnaeth adeiladu rheilffyrdd a dociau ar gyfer glo helpu neu niweidio De Cymru yn yr hirdymor?



# ARLOESI A MOESEG

Mae'r adran hon yn archwilio dathlu dyfeiswyr unigol enwog ac yn cwestiynu canlyniadau moesegol newid cyflym. Mae'n ymchwilio i sut y datblygwyd arloesiadau fel y rheilffordd stêm a'r system gamlesi er mwyn sicrhau y gellid echdynnu cymaint â phosibl, ac yn asesu'n feirniadol y cyfaddawdau moesegol a wnaed o ran diogelwch gweithwyr, effaith amgylcheddol a diffyg meddwl hirdymor. Mae'n ystyried blaenoriaethu elw unigol dros les cynaliadwy cyfunol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn dyfnhau dysgu a myfyrdodau o'r thema flaenorol.

## Arloeswyr a Gwir Gost Credyd

Gallai dysgwyr ymchwilio i Richard Trevithick ([trwy'r adnodd fideo](#)) a'i locomotif Cymreig arloesol i herio'r duedd hanesyddol i ogoneddu dyfeiswyr unigol dewisedig fel George Stephenson o Loegr. Gallai disgyblion ddefnyddio archifau trenau stêm cynnar i seilio hanes lleol yn weledol. Wedi'u hysgogi gan stori Trevithick, gallai disgyblion ymchwilio i arloeswyr hanfodol eraill sy'n cael eu hanwybyddu er mwyn tynnu sylw at yr ymdrech gyfunol sydd ei hangen ar gyfer cynnydd ac i ystyried y rhesymau pam nad ydynt yn cael eu dathlu.

- Lewis Latimer (Bwlb golau/ffôn)
- Elijah McCoy (Irwyr awtomatig)
- Hedy Lamarr (Neidio rhwng amleddau/Wi-Fi)
- Dame Elizabeth Anionwu (Triniaeth ar gyfer crymangelloedd)

## Y Ras Lo Fawr

Gallai dysgwyr weithio mewn timau i ail-greu sut y cafodd glo ei gludo o lofeydd Cymru i'r dociau, gan archwilio camau fel cludo â llaw, ceffyl a chart, cludiant rheilffordd a llongau. Trwy heriau ras gyfnewid, gall disgyblion feithrin stamina, cydlynad a gwaith fîm wrth hefyd ddatblygu empathi o ran y gofynion corfforol a wynebodd gweithwyr yng ngorffennol diwydiannol Cymru. Mae'r gweithgaredd hwn yn annog dysgwyr i feddwl yn feirniadol am les: cymharu llafur caled a pheryglus y gorffennol â'u profiadau eu hunain o ymdrech, gorffwys a chydweithrediad heddiw. Dylai myfyrion ar ddiwedd y sesiwn eu helpu i gysylltu iechyd corfforol ac emosiynol, tegwch a chyfrifoldeb.

## MYFYRIO AR Y PRESENNOL A'R DYFODOL

Pan fyddwn ni'n creu technoleg newydd, sut gallwn ni sicrhau ei bod yn helpu pobl, swyddi a natur, fel nad ydym yn gwneud yr un camgymeriadau ag yn y diwydiannau glo a rheilffyrdd?



Pam mae adnoddau lleol yn ariannu elw ymhell i ffwrdd tra'n gadael cymunedau gyda'r gwaith glanhau? Sut gallwn ni symud tuag at berchnogaeth deg?





## Ffyrdd a Chledrau: O Echdynnu i Gysylltu

Mae'r gweithgaredd mapio dwy ran hwn yn defnyddio map sylfaen symlach sy'n dangos gwythïen lo De Cymru a threfi a phorthladdoedd wedi'u marcio ymlaen llaw. Mae disgyblion yn defnyddio cod dau liw i gymharu dibenion trafniadaeth hanesyddol.

Ffocws Echdynnu – Gan ddefnyddio Lliw 1, mae disgyblion yn llunio'r seilwaith a adeiladwyd i symud adnoddau allan o Gymru, gan dynnu sylw at fuddsoddiad uchel mewn masnach allanol fel Camlas Morgannwg, llwybrau rheilffordd hanesyddol (18fed–19eg ganrif) a thraffordd yr M4.

Beirniadaeth Cysylltu Cymunedau – Gan ddefnyddio Lliw 2, mae disgyblion yn olrhain llwybrau sy'n cysylltu cymunedau Cymreig fel yr A470. Dylai'r canlyniad ysgogi trafodaeth ynghylch sut y daeth buddsoddiad mewnol mewn ffyrdd a rheilffyrdd yn y cymoedd i ben ar ôl dirywiad y diwydiant glo, gan adael trafniadaeth leol wael o'i gymharu â'r llwybrau echdynnu helaeth a grëwyd yn ystod diwydiannu.

Mae'r gymhariaeth weledol hon yn dangos effaith hirdymor cynllunio sy'n blaenoriaethu echdynnu dros anghenion cymunedol.



# POBL A LLEOEDD

## Datganiadau Beth sy'n Bwysig

**Dyniaethau:** Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ein gorffennol, ein presennol a'n dyfodol.


**Dyniaethau:** Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, ac yn cael eu canfod, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.

**Iechyd a Lles:** Mae sut rydym yn ymgysylltu â gwahanol ddylanwadau cymdeithasol yn llunio pwy ydyn ni a'n hiechyd a'n lles.

## Cwestiynau Hanfodol

- Straeon pwy am y diwydiant glo sydd wedi cael eu hadrodd, a sut gallem adrodd hanes mwy cyflawn a theg?
- Pam y cafodd rhai grwpiau yng nghymunedau dociau Caerdydd eu trin yn annheg, er bod pawb wedi helpu i adeiladu cyfoeth y ddinas?
- A yw straeon am lowyr Cymru yn dangos yr holl bobl a'r sgiliau a wnaeth i'r diwydiant weithio?

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar stori ddynol gyflawn y diwydiant glo. Mae'n archwilio'r cysylltiad dwyffordd hanfodol lle 'daeth y byd i Gymru' (croesawodd y diwydiant weithwyr o dras y mwyafrif byd-eang) ac 'aeth Cymru i'r byd' (wrth i'w glo a'i phobl bweru'r byd). Mae'n archwilio sut mae cymdeithas yn aml yn diystyru, yn anwybyddu neu'n tanbrisio cyfraniadau hanfodol pobl o dras y mwyafrif byd-eang yng Nghymru, ac yn archwilio sut mae eu llafur wedi llunio daearyddiaeth a hunaniaeth gyfunol barhaol cymunedau De Cymru yn sylfaenol. Daeth pobl o rannau eraill o Gymru – y gogledd a'r gorllewin gwledig – i Dde Cymru i chwilio am waith. Daeth pobl o rannau eraill o Brydain hefyd, yn enwedig o orllewin Lloegr lle roedd ganddyn nhw fwyngloddiau tun a phyllau glo. Daeth llawer o bobl i Gymru o Iwerddon yn ystod y Newyn Mawr rhwng 1845 a 1852. Fe wnaethant greu cymuned Wyddelig yn Ne Cymru.



### Dadbacio Gwreiddiau Byd-eang


Gallai disgyblion wyllo'r fideo a grëwyd gan **Myra Helm** (cliciwch ar y dolenni uchod) am gymunedau glofaol Du cymoedd De Cymru. Mae'r fideo yn tynnu sylw at hanes hir a pharhaus presenoldeb pobl Ddu yng Nghymru, gan herio'r naratif hanesyddol cyffredin mai dim ond pobl wyn oedd yn byw yn y cymoedd.

Gallai disgyblion ymchwilio i'r gwledydd a'r rhannau penodol o'r byd (e.e. gwledydd y Caribî a gwledydd Gorllewin Affrica) y teithiodd y glowyr Du hyn ohonynt i Gymru. Yna gallant nodi a mapio'r cysylltiadau byd-eang hirsefydlog a'r llafur amrywiol a daniodd y diwydiant glo lleol dros genedlaethau.

## GWEITHGAREDDAU A AWGRYMR

### Enwau ar Draws y Tonnau: Ditectifs yr Archifau

Gallai'r disgyblion archwilio cysylltiadau byd-eang o dystiolaeth hanesyddol go iawn drwy archwilio darnau byr o restrau criwiau llongau a ddociodd yng Nghaerdydd, Penarth a'r Barri. Gallai dysgwyr chwilio am gliwiau: O ble daeth y morwyr? Beth oedd eu swyddi? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am gysylltiad Cymru â'r byd? Mae pob grŵp yn bwydo'n ôl i'r dosbarth am y gwahanol wledydd maen nhw'n eu canfod, a gallent blotio'r rheiny ar fap o'r byd gyda'i gilydd. Yna rhoddir cofnodion llongau modern i ddysgwyr i wneud yr un dasg cyn cymharu'r gwahaniaethau a thrafod y rhesymau posibl am hyn.



### Straeon Dynol

Gallai disgyblion gael eu cyflwyno i dri dyn Cymreig o dras y mwyafrif byd-eang – Amos Brown, Leonard Hinds a John Hinds – fel pobl go iawn â rolau amrywiol mewn cymunedau lleol.

Mae gwyllo'r fideo o Amos Brown (glöwr/ceidwad moch) ac ymgysylltu â bywgraffiadau Leonard Hinds (mudwr o Farbados) a John Hinds (gweithiwr pwll glo a drodd yn arweinydd gwleidyddol), yn ogystal â gweld llun Archifau Morgannwg o'r teulu Hinds, yn rhoi cyfleoedd i feithrin cysylltiad gwledol a dynol. Gallai disgyblion hefyd ysgrifennu naratif byr i ddyneiddio profiad un person penodol.

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar fywgraffiadau penodol a thystiolaeth archif a fideo i ddatgelu'r sgiliau amrywiol, y cysylltiadau byd-eang, a'r potensial gwleidyddol a ddaeth unigolion o dras y mwyafrif byd-eang gyda nhw i gymunedau glofaol De Cymru.

## MYFYRIO AR Y PRESENNOL A'R DYFODOL

A yw straeon am lowyr Cymru yn dangos yr holl bobl a'r sgiliau a wnaeth i'r diwydiant weithio? Sut gallwn ni ddweud hanes mwy cyflawn a theg?

Sut mae ein hanes gyda glo a gweithwyr o dras y mwyafrif byd-eang yn dangos bod Cymru yn lle croesawgar, a sut gallwn ni ddefnyddio'r hanes hwnnw i fod yn [Genedl Noddfa well?](#)





9

10

Cliciwch yma am drawsgrifad llawn o'r archif hon



11



IMO NUMBER	6985269	CALL SIGN	6BRO6
FLAG STATE OF SHIP	CYP	VOYAGE NUMBER	15/2025
DATE OF ARRIVAL	06/05/2025	TIME OF ARRIVAL	06:00:00
DATE OF DEPARTURE	07/05/2025	TIME OF DEPARTURE	18:00:00

UK National Marine Shipping Records 5: Crew details						
RANK OR RATING	FAMILY NAME	FORENAMES	GENDER	DATE OF BIRTH	PLACE OF BIRTH	NATIONALITY
Enter the rank rating or job title	Enter family name or surname using English letters only, for example Guimares	Enter all forenames or given names using English letters only, if the crew mwbwbe has no forename recorded enter UNKNOWN	Enter M for male, F for female, or X for any other gender nomination shown in Travel	Enter the date that is given in the travel document. You must enter a date, and it must be in the format 12/09/1999	Enter place of birth using English letters only If no place of birth is shown, use country of birth	Enter a date in the format 12/09/1999 No other date format is accepted
Master	Kraijcuk	Sergejs	M	11/06/1963	BELARUS, GRONDO	LATVIAN
Second Officer	Mizgurjikis	Klichvili	M	09/11/1988	RUSSIA, ST PETERSBURG	RUSSIAN
Chief Officer	Ustinov	Nikita	M	27/08/1988	RUSSIA, KALIMINGRAD	RUSSIAN
Able Seaman	Gritciuk	Dmitrii	M	09/11/1968	MOLDOVA, STEFAN VODE	LITHUANIAN
Motorman	Dogorov	Sergey	M	05/10/1962	RUSSIA, KALIMINGRAD	RUSSIAN
Chief Engineer	Polanskis	Romanov	M	20/06/1983	ROMANIA, CONSTANTA	ROMANIAN
Motorman	Sparovic	Yevgeni	M	01/04/1958	LITHUANIA, KLAIPEDA	LITHUANIAN
Able Seaman	Belik	Ivan	M	22/08/1960	RUSSIA, ST PETERSBURG	RUSSIAN
Engineer	Larsman	Hans	M	06/06/1984	FINLAND, SUOMENLINNA	FINNISH
Able Seaman	Ludnivic	Vladislav	M	20/11/1963	BELARUS, MINSK	BELARUSIAN

12



11

# POBL A LLEOEDD PARHAD...

## Datganiadau Beth sy'n Bwysig

**Maths and Numeracy:** Mae ystadegau'n cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

**Dyniaethau:** Mae dinasyddion gwybodus a hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.

**Y Celfyddydau Mynegiannol:** Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyr, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.



## Plant yn y Pyllau Glo

Pwrpas y gweithgaredd hwn yw edrych ar luniau go iawn o lowyr a oedd yn blant a myfyrio ar eu bywydau a'u hawliau. Gallai dysgwyr symud rhwng ffotograffau hanesyddol o blant ym mhyllau glo De Cymru mewn parau neu grwpiau bach, gan nodi'r hyn maen nhw'n ei weld, ei feddwl a'i deimlo. Yna gallai'r hwylusydd ddarllen datganiadau byr wedi'u hysbrydoli gan y lluniau (e.e. "Roedd plant yn gweithio 10 awr y dydd yn y tywyllwch", "Dylai pob plentyn gael amser i chwarae", "Roedd plant yn helpu eu teuluoedd i ennill arian", "Mae plant yn haeddu lleoedd diogel i weithio neu ddysgu"). Gallai dysgwyr symud ar hyd "llinell hawliau" – gyda Chywir/Teg ar un pen ac Anghywir/Annheg ar y llall, a chyfiawnhau eu penderfyniadau. Gallent ddewis un ffotograff hanesyddol o löwr a oedd yn blentyn a dychmygu beth fyddai'r plentyn hwnnw'n ei ddweud pe bai'n gallu siarad â ni nawr. Yna, gallent ysgrifennu cofnod dyddiadur byr neu araith, "pe bai gen i hawliau..."

Mae'r archifau'n dangos Cymru a adeiladwyd gan bobl o lawer o gefndiroedd, ieithoedd a chysylltiadau byd-eang gwahanol; sut gallwn ni ddefnyddio hanes mwy 'cyflawn' i herio ystrydebau cul ac ailddiffinio beth mae'n ei olygu i fod yn Gymro yn yr 21ain ganrif??

Mae'r adran hon yn parhau i archwilio stori ddynol y diwydiant glo, sy'n aml yn gudd. Mae gweithgareddau a awgrymir yn archwilio sut roedd cymdeithas yn tanbriso cyfraniadau menywod, plant ac anifeiliaid yr oedd eu llafur wedi siapio'r rhanbarth. Mae'r gweithgaredd Plant yn y Pyllau Glo yn defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i herio llafur plant hanesyddol ac ysgogi myfyrdod ar anghyfiawnderau heddiw. Mae gweithgareddau eraill yn dadansoddi cymheliant deddfwriaethol a'r effaith ar rolau a llafur menywod ochr yn ochr â chydabyddiaeth am les anifeiliaid, gyda'r ddau yn pwysleisio elw yn hytrach na moeseg. Trwy archwilio'r llafur hwn, a oedd yn aml ddim yn cael ei gydnabod, mae'r thema'n dangos sut y ffurfiodd y cyfraniadau hyn ddaearyddiaeth, diwydiant a hunaniaeth De Cymru, gan ysgogi myfyrdodau ar faterion presennol o ran hawliau cymdeithasol a byd-eang.

## GWEITHGAREDDAU A AWGRYMIR

### Prosiect Adrodd Straeon Digidol: Merched Tomen a Merched Golosg

Gallai disgyblion ymchwilio i fywydau menywod yng nghymunedau glofaol Cymru cyn ac ar ôl Deddf Mwyngloddiau a Glofeydd 1842. Gallent greu fideo addysgol byr sy'n cyfuno ffotograffau hanesyddol, lluniau archifol a throsleisiau. Gallai'r prosiect hwn dynnu sylw'n benodol at y trawsnewid wrth i fenywod symud o waith tanddaearol i rolau ar yr arwyneb a dadansoddi effaith Deddf 1842 ar eu llafur, eu statws cymunedol a'u rolau economaidd. Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio cyfryngau digidol i archwilio effaith deddf hanesyddol benodol ar grŵp ymylol, gan ganiatáu i ddisgyblion ddadansoddi natur newidiol llafur rhyweddedig a sbardunau cymdeithasol a chanlyniadau economaidd deddfwriaeth ddiwydiannol.

### Merlyn Pwll Glo: Caethiwed a Chod

Gallai disgyblion ymchwilio i fywyd merlyn pwll glo, gan ganolbwyntio ar ei gaethiwed gydol oes (blynyddoedd heb olau dydd) o'i gymharu â'i gyfraniad economaidd. Gallai disgyblion amcangyfrif faint o dunelli o lo y byddai merlyn pwll glo yn eu cludo yn ystod ei oes (e.e. 37,500 tunnell) a throsi'r swm hwn yn fesur ymarferol, fel nifer y cartrefi y gallai fod wedi'u gwresogi. Mae'r cyfrifiad hwn yn dangos y gwerth economaidd enfawr a ddarparwyd gan lafur yr anifail. Gallai disgyblion ddefnyddio'r cyd-destun economaidd i ddadansoddi'n feirniadol yr oedi hir o ran deddfwriaeth lles. Gallent greu cymhariaeth weledol i ddangos y gwahaniaeth mewn amser rhwng deddfau diogelu a'u canlyniadau. Gallent blotio Deddf Mwyngloddiau 1842, a gynyddodd y defnydd o ferlod trwy wahardd llafur plant, yn erbyn Siarter Merlod Pyllau Glo 1911, y gyfraith a sicrhodd eu lles o'r diwedd. Mae'r gweithgaredd hwn yn tynnu sylw at allu'r gyfundrefn gyfalafol i ecsbloetio'r rhai heb leisiau, yn ogystal â'i chanlyniadau anfwriadol.



## MYFYRIO AR Y PRESENNOL A'R DYFODOL

Beth mae hanes merlod y pyllau glo yn ei ddweud wrthym am sut roedd pobl yn poeni mwy am arian na lles anifeiliaid? Sut gall y wers honno ein helpu i wneud dewisiadau gwell er lles anifeiliaid a'r amgylchedd heddiw?



Number of Persons in the Employ of the Dowlais Iron Company 1<sup>st</sup> May 1866.

		Under 10 Years		10 to 14 inclusive		14 to 18 inclusive		Over 18 years		Total
		Boys	Girls	Boys	Girls	Boys	Girls	Men	Women	
Old Works	Forges and Mills	7		44	5	160	55	1091	67	1429
For	do			48	20	98	21	573	15	775
Furnaces				13	16	32	59	559	123	802
Steel Works				3		2		39		44
Fitting, Pattern, & Smiths Shops				5	1	78	1	210	2	397
Foundry, Carpenters, Boiler Makers &c										
Engines	Forge & Blast			8		16		130	1	155
do	Locomotive					3		18		21
do	Pits					12		126		138
Collieries &c				237	15	353	34	1342	37	2022
Mine Works, Limestone Quarries &c		2		40		122	41	1248	200	1709
Masons, Roadmen & Carters				19		2		228	1	310
Church Building &c				2		5		24		31
Farms						1		19	12	32
Stables				2				32		34
Railway Station								3	1	4
Hatchhouse						1		2		3
Waffle						1		17		18
Wrights, Croppers &c						3		48	1	52
Offices - Library - Post &c						11		32	5	48
Schools					7		22	9	17	55
Cardiff Yard						6		28		34
Edge Hill Mines				23		58		475	1	557
London & Liverpool Houses &c								23		23
Total		9		605	64	968	263	6237	434	8500

13

Cliciwch yma am drawsgrifiad llawn o'r archif hon



14

15



13

# IECHYD AC YMGYRCHU CYMUNEDOL

## Datganiadau Beth sy'n Bwysig

**Expressive Arts:** Mae ymateb a myfyrio, fel artist a chynulleidfa, yn rhan sylfaenol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg:

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

**Dyniaethau:** Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol, ac wedi'u llunio gan weithredoedd a chredoau dynol. Iaith,

**Llythrennedd a Chyfathrebu:** Mae mynegi ein hunain trwy iaith yn allweddol i gyfathrebu.

## Cwestiynau Hanfodol

- Pwy sy'n gyfrifol am gadw gweithwyr yn iach ac yn ddiogel?
- Sut dylai gwlad benderfynu beth i wario ei harian arno pan fo ganddi adnoddau cyfyngedig?
- Sut gallwn ni gydnabod a dathlu cyfraniadau pobl o bob cwr o'r byd a helpodd i lunio a chyflwyno'r GIG?
- A yw'r syniadau gorau ar gyfer gwella gwlad yn dod gan ei harweinwyr neu gan bobl a chymunedau lleol?

Mae'r thema hon yn canolbwyntio ar y baich enfawr ar iechyd a grëwyd gan y diwydiant glo (e.e. clefydau ac anafiadau). Mae'n archwilio sut y gorfodwyd cymunedau i drefnu eu cymorth eu hunain trwy ymgyrchoedd ar lawr gwlad a chymdeithasau cydfuddiannol, er mwyn brwydro dros ddiogelwch ac amodau gwell a mwy diogel. Yn hollbwysig, dylanwadodd llwyddiant lleol modelau fel Cymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar yn uniongyrchol ar y gwleidydd Cymreig Aneurin Bevan yn ei weledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), gan ddangos sut y gwnaeth ymgyrchoedd Cymreig ar lefel gymunedol lunio sefydliadau cenedlaethol yn sylfaenol. Mae hyn yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) arloesol Cymru, sy'n blaenoriaethu pobl a lleoedd dros elw.

## Cofebion a Straeon Heb eu Dweud

Gallai disgyblion ymchwilio i hanes a phwrpas cofebion lleol i lowyr (e.e. Albion neu Senghennydd), gan ymchwilio pwy maen nhw'n eu coffáu a pham mae'r cofebion yn bwysig. Byddant hefyd yn ymchwilio i'r pwrpas y tu ôl i henebion newydd fel cerflun Betty Campbell ac ymdrechion eraill i goffáu menywod yng Nghymru fel [Elizabeth Andrews](#).

Gallai disgyblion archwilio'r gofeb lofaol i ganfod straeon heb eu dweud (e.e. llafur menywod, glowyr Du, neu ferlod pwll glo). Gallent greu cynnig ffurfiol neu ddyluniad ar gyfer cofeb leol newydd i anrhydeddu a chydabod un o'r grwpiau hanesyddol hyn yn barhaol, gan ddadlau pam ei bod yn haeddu lle ochr yn ochr â chofebion presennol. Mae'r gweithgaredd hwn yn cysylltu ymchwil hanesyddol â gweithredu dinesig, gan ganiatáu i ddisgyblion ddadansoddi swyddogaeth gymdeithasol y cof a chywiro hepgoriadau hanesyddol yn rhagweithiol trwy ddangos bod cofebion newydd, cynhwysol yn hanfodol ar gyfer hanes cyflawn Cymru.

Beth allwn ni ei ddysgu o'r gorffennol, fel Cymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar, i wneud gofal cymunedol yn well heddiw?

## GWEITHGAREDDAU A AWGRYMIR

### Ymgyrchu Cymunedol a Chydsafiad Byd-eang

Gallai disgyblion ymchwilio i ymgyrchoedd cymunedol yng nghymoedd De Cymru (e.e. lles glowyr neu gau pyllau glo). Gallai'r ffilm 'The Proud Valley' a'r gân 'A Design for Life' gan y Manic Street Preachers fod yn ddefnyddiol i ddangos sut mae brwydr glowyr Cymru wedi cael ei chynrychioli mewn celf ac yn y cyfryngau.

Gallai disgyblion greu cyflwyniad byr neu fwrdd arddangos yn dathlu'r berthynas ddwyochrog rhwng Cymru a'r ymgyrchydd Paul Robeson. Gallent dynnu sylw at pam roedd achos y glowyr wedi creu argraff arno ac yn rhoi nerth iddo, a sut y gwnaeth ei gefnogaeth ef a chefnogaeth eraill roi hwb i frwydr y glowyr dros gyfiawnder.

Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio celf a'r cyfryngau i gysylltu ymgyrchu lleol yng Nghymru â'r frwydr fyd-eang dros ryddid, gan ddangos pŵer cydsafiad rhyngwladol a sut roedd unigolion allweddol a lleisiau diwylliannol wedi hybu brwydr y cymoedd dros gyfiawnder cymdeithasol.

## MYFYRIO AR Y PRESENNOL A'R DYFODOL



A ddylai penderfyniadau mawr am iechyd gael eu gwneud gan un grŵp ar ran y wlad gyfan, neu gan grwpiau llai ar gyfer pob tref? Pam?



## Gweledyddion y Cymoedd

Dr Kristnalal Datta oedd un o'r meddygon cyntaf i gyrraedd o India i ddarparu gofal iechyd yng nghymoedd y Rhondda, a oedd yn ehangu'n gyflym. Gallai dysgwyr ddefnyddio cofnod Dr. Datta yng nghyfrifiad 1911, sydd yn Archifau Morgannwg, fel sbardun i ddatgelu ei stori yn y Rhondda. Gallent archwilio sut mae ei hyfedredd mewn pum iaith a'i ysbyty am ddim i lowyr yn herio syniadau traddodiadol am y Cymoedd. Gallent gysylltu hyn â'r GIG drwy wyllo clip o [Michael Sheen yn trafod y ddrama 'Nye'](#) (am Aneurin Bevan) i weld sut arweiniodd ymgyrchoedd lleol yng Nghymru at enedigaeth y GIG. Gallai dysgwyr drafod yr heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu heddiw, o'i gymharu â'r "Ysgyfaint Du" a'r tlodi a welwyd gan Bevan a Dr. Datta. Gallai dysgwyr wedyn weithio mewn timau i gynnig gwelliant ar gyfer 'Uwch Feddygfa' leol ac awgrymu sut y gallai adain newydd neu ofod arbenigol ddefnyddio technoleg fodern i ddiwallu anghenion iechyd penodol eu cymuned yn well. Gallent gyflwyno eu syniadau i banel, gan esbonio sut mae eu ddyluniad yn parhau ag etifeddiaeth arloeswyr fel Dr. Datta ac Aneurin Bevan.





16



17



18

**CENSUS OF ENGLAND AND WALES, 1911.**

Number of Schedule 56  
(To be filled up by the Enumerator after collection.)

*Before writing on this Schedule please read the Examples and the Instructions given on the other side of the paper, as well as the headings of the Columns. The entries should be written in Ink.*

*The contents of the Schedule will be treated as confidential. Strict care will be taken that no information is disclosed with regard to individual persons. The returns are not to be used for proof of age, in connection with Old Age Pensions, or for any other purpose than the preparation of Statistical Tables.*

NAME AND SURNAME	RELATIONSHIP to Head of Family	AGE (last Birthday) and SEX	PARTICULARS as to MARRIAGE				PROFESSION or OCCUPATION of Person aged ten years and upwards				BIRTHPLACE of every Person	NATIONALITY of every Person born in a Foreign Country	INFIRMITY	LANGUAGE SPOKEN	
			Single	Married	Widowed	Divorced	Personal Occupation	Industry or Service with which worker is connected	Whether Employed or Working on Own Account	Whether Working at Home					
1															
2	Head	5													English
3	Wife	39	Single						Police Medical	431	Employed				English
4	Nurse	17	Single						Sick nurse	437	Employed				English
5	Servant	22	Single						General Servant Domestic	619	Employed				English
6	Servant	15	Single						General Servant Domestic	454	Employed				English
7	Servant	29	Single						Private Secretary	6 Med. Dep. 31	Employed				English

(To be filled up by the Enumerator.)

I certify that— 1. I have read the notes and instructions on this Schedule and I have explained their contents to the head of the family. 2. I have made the necessary inquiries and have completed all entries on the Schedule which appeared to be defective, and have corrected such as appeared to be erroneous.	Total	Males	Females	Totals
	2	4	6	6

(To be filled up by, or on behalf of, the Head of Family or other person in occupation, or in charge, of this dwelling.)

I declare that this Schedule is correctly filled up to the best of my knowledge and belief.

Signature J. H. Datta  
Postal Address The Surgery, High St., Farnedale, Glam.

19

# RHESTR O LUNIAU ARCHIFOL YN Y DDOGFEN

1: Mae dau löwr i'w gweld yn torri gwely canol meddal o wythïen lo drwchus mewn glofa yn Ne Cymru. Byddai'r glo uchaf wedyn yn cael ei dynnu i lawr a byddai'r glo isaf yn gogwyddo i ffurfio'r stâl a'r ffordd fynediad. Sylwch ar y pren onglog sy'n dal y pen uchaf yn ddiogel tra bod y dynion yn gweithio.

2: Criw o grefftwy'r ar yr wyneb, Glofa'r Mynydd Mawr, tua 1906. Mae prentis ifanc yn sefyll ar y dde. Nid oedd gwaith pwll glo yn digwydd o dan y ddaear yn unig. Byddai gweithwyr ar yr wyneb wedi gwneud amrywiaeth o swyddi, gan gynnwys gofaint, arolygwyr pen pwll, halwyr, cynorthwyyr meddygol, casglwyr glo, gweithwyr y lamprwm a chlercod.

3: Wedi'i adeiladu ym 1888, daeth y Gyfnewidfa Lo yng Nghaerdydd yn ganolfan allweddol i'r fasnach lo fyd-eang, a dyma oedd safle llofnodi'r siec gyntaf gwerth miliwn o bunnoedd. Mae'r ffotograff hwn, a dynnwyd ar ôl ei hailwampio ym 1911/12, yn dangos dynion busnes o'r diwydiannau glo a llongau.

4: Llun o'r domen yng Nglofa Albion, Cilfynydd. Rhan o'r Rhestr o Domenni a luniwyd gan y Bwrdd Glo Cenedlaethol ym mis Tachwedd 1967, yn dilyn Trychineb Aberfan ym mis Hydref 1966. Ar argymhelliad Tribiwnlys Trychineb Aberfan, casglwyd gwybodaeth gynhwysfawr am holl domenni'r Bwrdd Glo Cenedlaethol am y tro cyntaf, fel rhan o waith y pwyllgor diogelwch tomenni.

5: Map o faes glo De Cymru, tua'r 1920au. Map sy'n dangos lleoliadau glofeydd glo stêm a glo carreg, y rheilffyrdd yn gwasanaethu'r ardal a'r porthladdoedd cludo. Mae'r map hwn yn dangos yr holl lofeydd a oedd yn bodoli yn Ne Cymru ar yr adeg hon. Mae'n dangos y rheilffyrdd a gludodd y glo o'r pyllau glo i'r porthladdoedd, yn barod i'w allforio. Mae'n dangos y porthladdoedd lle llwythwyd y llongau â glo i'w gludo o gwmpas y byd.

6: Injan Fochriw, a adeiladwyd gan Sharp Stewart & Co., 1896. Mae'r ffotograff hwn yn dangos injan 0-6-0, a adeiladwyd gan Sharp Stewart & Co. yn 1890. Byddai injans stêm fel hyn wedi tynnu dramiau llawn glo o'r pyllau glo i lawr i'r dociau, yn barod i'w hallforio i bedwar ban byd.

7: Camlas Morgannwg, cwch wedi'i bweru gan stêm, tua 1910. Cwch 504 Camlas Morgannwg. Cwch wedi'i bweru gan stêm oedd hwn, a oedd yn gweithio ar Gamlas Morgannwg. Tynnwyd y llun o'r cwch ger y Queen's Hotel, Cilfynydd. Mae'n debyg bod y cwch hwn yn cludo casgenni o gwrw. Mewn blynyddoedd cynt, byddai cychod fel hyn wedi cludo glo o'r pyllau glo i'r dociau. Erbyn 1910, byddai'r rhan fwyaf o'r glo wedi cael ei gludo gan drên.

8: Golygfa o Ddociau'r Barri: Golygfa gyffredinol o Ddociau'r Barri a'r ardal gyfagos. Gellir gweld rheilffyrdd a wagenni llawn glo, yn aros i gael ei lwytho ar y llongau. Gallwn hefyd weld rhesi o siopau a busnesau a fyddai wedi gwasanaethu ardal brysur y Dociau, a thai yn y cefndir lle byddai pobl â chysylltiad â'r Dociau wedi byw. Tua'r 20fed ganrif.

9: Mae'r llun yn dangos grŵp o gasglwyr glo. Dydyn ni ddim yn gwybod llawer amdanynt, ond gallent fod yn grŵp teuluol, gan eu bod yn cynnwys dynion, menywod a phlant. Tynnwyd y llun ym 1921, o bosibl yn ystod streic y glowyr y flwyddyn honno. Byddai casglwyr glo yn mynd i'r tomenni i gasglu darnau bach o lo i ddefnyddio gartref. Digwyddodd hyn yn aml yn ystod cyfnodau anodd yn y diwydiant pan nad oedd digon o arian gan bobl. Gallwch weld sachau llawn glo ar y gambo (cart), a bachgen ifanc yn eistedd ar eu pen. Wrth edrych yn agos fe welwch fachgen ifanc yn cael traferth gyda llwyth o lo yn y cefndir.

